

**M**ae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl nad yw caethwasiaeth bellach yn bodoli. Ond yn ôl y Cenhedloedd Unedig mae rhyw ugain miliwn o bobl yn cael eu trin fel caethweision heddiw.

Ddau gan mlynedd ar ôl diddymu'r fasnach gaethweision, mae caethwasiaeth yn dal i ddigwydd ym Mhrydain.

Pobl sy'n delio mewn pobl yw caethfeistri'r cyfnod modern. Caiff rhai merched er enghraifft, eu smyglo i Brydain gyda'r addewid o swyddi da. Yna gorfodir nhw i fynd yn buteiniaid. Heb basport ni allant fynd at yr awdurdodau rhag ofn iddynt gael eu halltudio. Mae'r troseddwyr sy'n ymelwa arnynt yn defnyddio'r bygythiad o drais i ofalu eu bod yn dilyn eu gorchmynnion.

Mae pobl eraill sy'n cael eu smyglo yn cael eu defnyddio fel llafur rhad mewn amaethyddiaeth, gan weithio oriau hir am ychydig o dâl, ac yn byw mewn amodau difrifol.

Nid yw'r holl weithwyr ymfudol yn dioddef fel hyn. Mae llawer yma'n gyfreithlon ac mae ganddynt amodau gwaith da. Ond mae pobl wedi eu cuddio ar ymylon y gymdeithas Gymreig nad yw eu bywydau yn ddim gwell na rhai'r caethweision.



◀ Yn Ewrop, putoindra yw un o'r prif resymau dros smyglo pobl. Bydd gwraigedd yn cael eu prynu a'u gwerthu fel caethweision, a'u gorodi i weithio mewn amgylchiadau ofnadwy, lle maen amhosibl iddynt adael neu gael unrhyw reolaeth dros eu bywyd eu hunain.

◀ In Europe, prostitution is a major reason for people trafficking. Like slaves, women are bought and sold, made to work in appalling conditions and are unable to leave or control their own lives.

## Munud i feddwl

Pan glywn y gair 'caethwas' rydym yn aml yn meddwl am ddyn neu wraig ddu mewn cadwyni. Heddiw rydym yn gwybod bod caethweision dros y byd i gyd, o bob lliw a diwylliant. A ddylem newid ein delwedd feddyliol?

## Think about it

When we hear the word 'slave' we often picture a black person in chains. Today we know that there are slaves all over the world, of every colour and culture. Should we alter our mental image?

## Geirfa

*Pobl sy'n delio mewn pobl*  
– Pobl sy'n smyglo pobl eraill yn anghyfreithlon o un wlad i un arall, fel arfer yn gyfnewid am symiau mawr o arian.

*Putoindra* – Codi arian yn gyfnewid am ryw.

*Alltudiaeth* – Symud rhywun o'r wlad drwy rym, yn ôl i'r wlad y daethant yn wreiddiol ohoni fel arfer.

## Glossary

**Human Traffickers** – People who smuggle other people illegally from one country to another, usually in exchange for large sums of money.


**Prostitution** – Charging money in exchange for sex.

**Deportation** – Removing someone from the country by force, usually back to the country they originally came from.



◀ Mae sefydliadau'n gweithio ym mhob rhan o'r byd i geisio dod â chaethwasiaeth a smyglo pobl i ben. Maen nhw'n lobio llywodraethau, yn codi ymwybyddiaeth ymmsg y cyhoedd ac yn monitro llefydd gwaith.

◀ Organisations and charities work across the world trying to end slavery and people trafficking. They lobby governments, inform the public and monitor work places.



**M**ost people think that slavery no longer exists. However, according to the United Nations there are about 20 million people living in slavery today.

Two hundred years after the abolition of the slave trade, slavery still goes on in Britain.

Human traffickers are modern day slavers. Some women, for example, are smuggled into Britain with the promise of good jobs. They are then forced into prostitution. Without passports they cannot go to the authorities for fear of deportation. The criminals who exploit them use the threat of violence to make sure they do as they are told.

Other smuggled people are used as cheap labour in agriculture, working long hours for little pay and living in terrible conditions.

Not all migrant workers suffer in this way. Many are here legally and have good working conditions. However, there are hidden people on the margins of Welsh society whose lives are no better than those of slaves.

Lafur caeth yw'r dull a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin o gaethiwo pobl heddiw. Mae'n arbennig o gyffredin mewn ardaloedd o Dde Asia a Gorllewin Affrica. Ym Mhacistan, er enghrafft, mae rhyw 5 miliwn o weithwyr yn gaeth i'w cyflogwyr gan ddyledion enfawr. Yn Niger, mae'r ffigur bron yn 1 miliwn.

Gall pobl dlawd ddod yn weithwyr caeth pan hawlir eu gwaith fel dull o ad-dalu benthyciad. Gweithiant oriau hir heb wyliau am ychydig neu ddim arian ac eto dydyn nhw fyfth yn ennill digon i ad-dalu eu benthyciad. Mewn gwirionedd mae gwerth eu gwaith yn llawer mwy na swm gwreiddiol yr arian a fenthyciwyd ganddynt.

Yn 2006 amcangyfrifodd y Corff Llafur Rhyngwladol fod 218 miliwn o blant yn gweithio yn y byd. Mae llawer ohonynt yn gweithio mewn amaethyddiaeth ac mae eraill yn gweithio mewn ffatrioedd neu fel gweision domestig. Mae rhai o'r plant hyn yn cael eu talu am eu gwaith ond mae rhai eraill yn cael eu cam-drin yn gorfforol a'u trin fel caethweision.

▼ Mae chwareli cerrig yn India yn cyflenwi wynebau gweithio i geginau a deunyddiau adeiladu erailli i'r DU. Maent yn aml yn defnyddio llafur ymrwymedig heb roi fawr o ystyriath i eichyd a diogelwch na chyflogau isel.



▼ Stone quarries in India supply kitchen work tops and other building materials to the UK. They often use bonded labourers, with little regard for health and safety and low pay.



▲ Yn Niger, gwlad yng Ngogledd Affrica, gwnaed caethwasiaeth yn anghyfreithlon yn 2004. Heddiw mae tua 7% o'r boblogaeth yn dal yn gaethweision, yn cael eu 'mediannu' gan bobl eraill. Mae eu teuluoedd yn aml wedi bod yn gaethwisiau ers cenedlaethau, ac nid ydynt wedi adnabod unrhyw ffordd arall o fyw.

▲ In Niger, a north African country, slavery was made illegal in 2004. Today around 7% of the population are still slaves, 'owned' by other people. Their families have often been slaves for generations and they have known no other way of life.

**B**onded labour is the most widely used method of enslaving people today. It is particularly widespread in areas of South Asia and West Africa. In Pakistan for example, about five million labourers are bonded to their employers by massive debts. In Niger, the figure is nearly one million.

Poor people can become bonded labourers when their work is demanded as a means of repaying a loan. They work long hours without holidays for little or no money and yet never earn enough to repay their loan. In reality the value of their work is much greater than the original sum of money they borrowed.

In 2006 the International Labour Organization estimated that there were 218 million working children in the world. Many of them work in agriculture but others work in factories or as domestic servants. Some of these children are paid for their work but others are physically abused and treated as slaves.



Rugmark

▲ Mae RUGMARK yn elusen sy'n gweithio i ddirwyn llafur plant i ben yn ffatrioedd rygau a charpedi Asia. Cyflogir tua 300,000 o blant yn y diwydiant hwn. Gwneir rygau wedi eu nodi gyda logo RUGMARK gan oedolion yn unig.

▲ RUGMARK is a charity which works to end child labour in Asia's rug and carpet factories. Around 300,000 children are employed in this industry. Rugs marked with the RUGMARK logo are made by adults only.

## Munud i feddwli

Ydych chi'n gwybod pa mor hen mae'n rhaid i blentyn fod cyn y gall weithio'n gyfreithiol yng Nghymru heddiw? Ni all plant o dan 16 oed wneud gwaith amser llawn ond gallant fod â swyddi rhan amser ar ôl troi'n 13 neu 14 oed, yn dibynnu ar yr is-ddeddfau lleol.

## Think about it

Do you know how old a child has to be before they can legally work in Wales today? Children under 16 cannot do full time work but can have part-time jobs from 13 or 14, depending on the local by-laws.

## Geirfa

**Caeth** – Gwneud i rywun aros mewn sefyllfa neu gcontract heb y rhyddid iadael.

**Gwas domestig** – Gwas neu forwyn sy'n gweithio mewn tŷ, fel arfer fel morwyn, cogydd neu fel nani plant.

## Glossary

**Bonded** – Made to stay in a situation or contract without the freedom to leave.

**Domestic servant** – A servant who works in a house, usually as a maid, a cook or a children's nanny.

**M**ae Ewropeaid yn ennill cyflogau teg ond maent bob amser yn chwilio am fargen. Er hynny mae angen i gwmnïau gweithgynhyrchu gadw eu helw. Heddiw â ninnau'n yn byw mewn 'economi fydd-eang', gall cwmnïau sefydlu ffatrioedd mewn gwledydd tlotach lle mae costau gweithgynhyrchu a chostau cyflogau yn is.

Ym mis Rhagfyr 2006 dangosodd adroddiadau'r newyddion fod rhai adwerthwyr Prydeinig yn defnyddio ffatrioedd ym Mangladesh lle'r oedd pobl yn gweithio 80 awr yr wythnos am 5c yr awr. Byddai gweithwyr yn cael eu diswyddo pe baent yn ceisio sefydlu undeb llafur i ymladd dros eu hawliau. Er nad yw hyn yn cael ei ddiffinio fel caethwasiaeth, a yw'n wahanol o gwbl?

Yn ystod blynnyddoedd diweddar mae ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r amodau gwaith gwael hyn wedi ennill momentwm. Cynhyrchrir nwyddau yn dangos logo Masnach Deg gan ffermwyr ac mae gweithwyr yn cael pris teg am eu gwaith. Mae llawer o siopau yn y stryd fawr bellach yn gwerthu cynhyrchion wedi eu 'masnachu'n deg' fel te, coffi, siocled a gwin.



▲ Mae'r Nod Masnach Deg yn symbol a gydnabyddir yn rhwngwladol. Os gwelwch ef ar unrhyw gynhyrchion yn y siopau, gallwch fod yn sicr bod y cynhyrchwr wedi cael cyflog da am ei waith.

▲ The Fairtrade Mark is an internationally recognised symbol. If you see it on any products in the shops, you can be sure that the producer has been paid a good wage for their work.

**E**uropeans earn decent wages but they are always looking for a bargain. However manufacturing companies need to maintain their profits. Today, when we live in a 'global economy', companies can set up factories in poorer countries where manufacturing and wage costs are lower.

In December 2006 news reports showed that some British retailers were using factories in Bangladesh where people worked eighty hours a week for five pence an hour. Workers would be sacked if they tried to set up a trade union to fight for their rights. Although this is not defined as slavery, is it any different?

In recent years a campaign to raise awareness of these poor working conditions has gained momentum. Goods showing the Fairtrade logo are produced by farmers and workers paid a decent price for their work. Many high street shops now sell 'fairly traded' products such as tea, coffee, chocolate and wine.



◀ Ers datblygu'r logo Masnach Deg ar ddiwedd y 1980au, mae nifer y cynhyrchion sy'n arddangos y logo wedi cynyddu. Bellach gallwch brynu bwyd, dillad a hyd yn oed peli troed sydd wedi eu gwneud heb ymelwa ar y gweithwyr.



◀ Since the development of the Fairtrade logo in the late 1980s, the number of products displaying the logo has grown. Now you can buy food, clothes and even footballs which have been made without exploiting workers.

▲ Mae prosiectau o bob rhan o'r byd yn dangos y gall nwyddau gael eu cynhyrchu heb lafur caethwasiaeth. Pam bod caethwasiaeth yn dal i fodoli?

▲ Projects from all over the world show that goods can be produced without slave labour. Why does slavery still exist?

## Munud i feddwl

Ym Mangladesh y cyflog cyfartalog i bobl 15 oed a throsodd yw'r hyn sy'n cyfateb i 61c y dydd. Gellir prynu pâr o jîns a wnaed ym Mangladesh am gyn lleied â £3 mewn archfarchnad yng Nghymru. Yr isafswm cyflog yng Nghymru yw £3.30 yr awr i bobl rhwng 16 ac 18 oed; £4.45 i bobl 18 i 21 oed a £5.35 i bobl sy'n 22 oed a throsodd.

## Think about it

In Bangladesh the average wage for people aged 15 and over is equal to 61p per day. A pair of jeans made in Bangladesh can be bought for as little as £3 in a Welsh supermarket. The minimum wage in Wales is £3.30 per hour for people aged between 16 and 18; £4.45 for people aged 18 to 21 and £5.35 for people of 22 and over.

## Geirfa

*Yr economi fydd-eang* – heddiw mae nwyddau yn cael eu cludo a'u gwerthu ar draws y blaned i gyd yn hytrach na dim ond yn lleol. Gellir effeithio ar economi pob gwlad gan yr hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill. *Undeb Lafur* – Ffurfir undebau gan grwpiau o weithwyr mewn diwydiannau arbennig. Maent yn ymgyrchu dros hawliau gweithwyr, lefelau da o gyflog ac amodau gwaith diogel.

## Glossary

*Global economy* – Today the economies of all countries rely to some extent on others in the world. Goods are brought and sold across the whole planet rather than just locally.

*Trade Union* – Unions are formed by groups of workers in particular industries. They campaign for workers rights, good levels of pay and safe working conditions.